Cyfres Llanbedr | Gorffennaf, 1931. | Cyf. 31. Rhif 7.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd: Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Hanes Hen Gynulleidfaoedd—
Penybont-ar-Ogwr.
William Hefin Williams.
Cymanfa Aberaeron.
Arholiad 1931.
Priodasau.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

HANES

CYNULLEIDFAOEDD *UNDODAIDD*

SIR ABERTEIFI

(Gyda Darluniau)

GAN

T. OSWALD WILLIAMS, M.A.

(Gweinidog Brondeifi a Chae'ronnen; Golygydd 'Yr Ymofynnydd').

Pris 1/-. Trwy'r Post 1/2.

Anfoner archebion (*gyda blaendal*) at—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

CHANNING SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. Gorffennaf, 1931. Cyf. XXXI. Rhif 7.

Hanes Hen Gynulleidfaoedd Undodaidd.

PENYBONT-AR-OGWR.

RHYW ddeufis yn ôl ceisiais adrodd hanes hen gynulleidfa'r Betws ym mro Morgannwg, a hyd y gwelaf dwy chwaer yw'r ddwy gynulleidfa—ill dwy wedi gweld dyddiau gwell ond Betws ers llawer dydd yn bwll. Ni thal yn hanes Penybont-ar-Ogwr fynd yn ôl ymhell er fod hanes i'r achos ymneillduol yn y fro.

Ceir trwydded gan y Parch. Samuel Jones, Brynllywarch i bregethu yn 1672—

Cildeudy . . . The House of Rees Powell : 18 *Nov.*

Nid oes angen dweyd hanes Samuel Jones, M.A. Fe'i ganwyd ger Castell Chirk, Dinbych. Mab oedd i John Roberts o Gorwen. Fe'i haddysgwyd yn Rhydychen lle y graddiodd B.A. (1652), M.A. (1654). Fe'i hordeiniwyd yn Nhaunton a daliodd fywioliaeth Llangynwyd hyd 1662. Trigai ym Mrynllywarch a phregethai yng Nghildeudy gerllaw Penybont-ar-Ogwr. Dywedir yn yr Episcopal Returns 1669 ei fod yn pregethu yn y Betws. Wedi marw Samuel Jones, Cildeudy oedd yr unig Dŷ Cwrdd Presbyteraidd yn yr ardal, a bu addoli yma hyd tua 1715.

Ymhen rhyw ddwy flynedd ond odid rhannodd yr eglwys a fynychai Cildeudy'n ddwy—Ymsefydlodd un rhan ohoni ym Metws a'r llall ym Mhenybont-ar-Ogwr. Ni wn i pryd y codwyd

y capel cyntaf ym Mhenybont-ar-Ogwr ond ni byddwn ymhell o le o gymryd 1717 fel dydd dechreu cynulleidfa Penybont-ar-Ogwr ar ei phen ei hun.

Dipyn yn dymhestlog y bu'r gynulleidfa a shiprys oedd o gyfansoddiad. Rhoir yr hanes yn Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru td. 199 :—

"Yn fuan wedi marwolaeth Mr. Price, aeth pethau yn annumunol iawn yma oherwydd fod y bobl yn methu cyduno yn newisiad gweinidog. Yr oedd Mr. Walter Coffin, yr unig ymddiriedolwr yng ngweithredoedd y capeli oedd yn fyw, ac ychydig o'r bobl gydag ef, dros roddi galwad i Mr. James Griffiths o Athrofa, Caerfyrddin, wedi hynny o Dyddewi, a mwyafrif dirfawr y ddwy eglwys dros Mr. Thomas Edwards o Athrofa Gwrecsam. Barnai Mr. Coffin a'i blaid fod Mr. Griffiths yn well ysgolhaig, ac yn fwy doeth a boneddigaidd na Mr. Edwards, ond barnai y lliaws mai Mr. Edwards oedd y dyn cymhwysaf oherwydd ei fod yn fwy doniol ac yn pregethu golygiadau Calfinaidd yn fwy noeth. Pan welodd Mr. Griffiths fel yr oedd pethau yn sefyll, safodd draw a derbyniodd alwad o Fachynlleth ; ond glynodd Mr. Edwards am ychydig gyda'i blaid, a'r canlyniad fu i'r eglwysi rwygo, ac i gorph y gynulleidfa fyned allan o'r ddau gapel ym Mhenybont a'r Betws. Yr oedd gan Mr. Coffin feddiant o'r capeli fel yr unig ymddiriedolwr, a chan fod ei fab, Mr. Walter Coffin, yn Undodwr, cafodd gan yr hen wr ei dad, er nad oedd o'r gred honno, i wahodd pregethwyr Undodaidd i'r Capeli."

Y mae'n anodd erbyn hyn gwybod faint o wir sydd yn y stori. Nid yw'r holl wir yma. Y mae hynyna yn sicr.

Fe geir llythyr Walter Coffin at John James dyddiedig Ionawr 27, 1816 yn hanes Eglwys y Betws a gwelir *trend* ei feddwl. Nid oedd ddim amgen na *battle royal* drosodd drachefn rhwng Calfiniaeth ac Arminiaeth, oherwydd ceir Tomos Glyn Cothi yn ysgrifennu mewn ateb i John James ar Chwefror 21, 1816.

"Fy Annwyl Gyfaill.

Mewn atebiad i'r eiddoch dyddiedig y 13edd cyfisol, cynghorwn chwi i dderbyn yr alwad yn hytrach na gadael yr endowments i syrthio i ddwylaw pleidwyr yr athrawiaethau Calfinaidd."

Tebig ond odid oedd barn David Davis, Castellnedd, Chwef 23, 1816.

" . . . Pe gadawech Sir Aberteifi, ni fyddai'r Undodiaid yno heb weinidog (destitute) ond yr wyf yn ofni ac yn ofni'n fawr y bydd i Benybont yn y diwedd i syrthio i ddwylaw'r Calfiniaid os na wnewch chwi gyfryngu yn y mater . . .

Ar y chweched-ar-hugain o Fai 1816 derbyniodd John James yr alwad a chytunodd am lety yn nhŷ David Rees, Quarrelau ar y 21 o Fehefin am guinea y chwarter.

Y mae'r hanes yn ddigon plaen.

" Ni fu llewych ar yr achos ym Mhenybont a'r Betws wedi'r ymraniad yn 1806. Ychydig oeddynt wedi aros ar ôl dan nawdd ac arweiniad Mr. Coffin, mewn meddiant o'r capeli a'r gwaddol a gyfrifid o leiaf yn Arminiaid."

Bu John Jones yn weinidog ym Mhenybont a'r Betws o Fai 26, 1816, hyd Fai 26, 1818, ond pregethodd yn achlysurol hyd Tachwedd 22. Wedi ymadael o Mr. James, ymhen rhyw dair blynedd daeth y Parch. J. E. Jones yma a bu yma am ddeugain mlynedd.

Yn hanes Taith Genhadol Wright ceir :—

" *Bridgend : A good meeting house, but the congregation has long been in a low state.*"

Hyd y gwelaf ni bu rhyw lewych mawr ar gynulleidfa Penybont erioed wedi'r ymrannu. Ymddengys ei bod wedi ei gwanychu'n ormodol yr adeg honno.

Yr oedd gwaddoliadau Penybont yn £41/14/0 y flwyddyn yn 1816—1818 yn ôl Yr Ymofynnydd am 1893 td. 30. Dywedid ychydig flynyddoedd yn gynt fod y gwaddoliadau yn cynnwys " valuable mining land."

Ni wn i ond ymddengys fod yr ymgyfreithio a fu yma tua diwedd gweinidogaeth y Parch. William Parry wedi selio tynged Penybont.

Yn y *Christian Life*, Mawrth 30, 1901, ceir a ganlyn :

" Important Judgement "

" On Saturday last an action brought by the Rev. William Parry against the Trustees of the Chapel at Bridgend, Glam. was decided by Justice Buckley. The Trustees in 1893 being of the opinion that there was practically no congregation at

Bridgend and that they had power to terminate the minister's engagement gave Mr. Parry notice that they dispensed with his services. He took no heed of it and continued to hold services from time to time and excluded the Trustees from taking possession of the chapel, but was paid nothing.

The Judge held Parry was wrong and that he was the servant of the Trustees who appointed him and that they had the power to dismiss him."

Ni pherthyn i'r hanes i ail godi yr hen gweryl. Yn ôl un o'r hen Drusts yn 1739 rhoid gwaddol

" for the support of the ministry of the Gospel and its ordinances at the Chapel." Gorchymynnai un arall i'r Ymddiriedolwyr " to pay an annuity to, or permit the same to be received by the minister of the Congregation."

Fe fyddai'n ddiddorol tynnu'r llen yn ôl er gweld amcan Parry a'r Ymddiriedolwyr. Nid wyf yn sicr yn y byd fod yr Ymddiriedolwyr yn gwbl ddoeth yn y cam o fynd i gyfraith. Yn sicr onid oedd llawer o gynulleidfa yno cyn dechreu ymgyfreithio, nid oedd blynyddoedd o gyfraith yn cryfhau achos Duw. Ni bum erioed ond sylwedydd mud yn yr hen gapel prydferth a godwyd ond odid yn 1795. Y mae'r achos yn fyw ond rywsut nid yw Undodiaeth wedi gwreiddio yn y fro. Fe ysgrifennodd J. E. Daniel, M.Sc. draethawd ar "The Distribution or Religious Denominations in Wales in its Relation to Racial and Social Factors."

Y mae cryn wahaniaeth rhwng gweundir Sir Aberteifi a bro Morgannwg. Pwy wyr na cheir yma wedi'r cyfan yr esboniad? Gellid disgwyl i bobl y fro fod yn arafach eu camre a mwy ceidwadol eu meddwl na phobl gweundir y sy'n ymgodymu bob dydd am eu bara beunyddiol. Nid af ar ôl hynyna ond y mae'n awgrym diddorol.

Beth bynnag y mae'n talu cyn belled ag y mae cynulleidfaoedd Betws, Penybont a'r Wig yn y cwestiwn.

Y mae nifer o fugeiliaid wedi bod yma ond neb wedi gwreiddio yn y tir. Adar ymfudol ydynt bron bob yr un er dyddiau J. E. Jones. Er nad yw cynulleidfa Penybont yn gryf fe feddwl darllenwyr Yr Ymofynnydd yn garedig amdani oherwydd mai'r Parch. J. E. Jones, Hen Weinidog Penybont oedd Golygydd Cyntaf Yr Ymofynnydd.

RHESTR O WEINIDOGION PENYBONT-AR-OGWR.

CILDEUDY.

Samuel Jones, M.A.	1669/1672—1697
Rees Price	1697—1715/17

PENYBONT-AR-OGWR.

Rees Price	1715/1717—1739
Lewis Jones	(1740)—1763
Evan Williams	1766—1780
Samuel Price	1783—1806
William Rees	1808—1814
John James	1816—1818
John Edward Jones	1821—1866
Jenkin Williams	1867—1868
Rees Cribin Jones	1868—1871
David Lewis Evans (supply)	1871—1874
Titus Lloyd (supply)	1875—1878
William Parry	1880—1895
(Yn gweinidogaethu yma mewn enw o leiaf hyd 1901 (Chancery suit Parry v. Williams).	
David Gwenog Rees	1903—1912
J. P. Kane	1912—1916
W. P. Phillips (Lay Preacher)	1917—1919
Supplies	1919—1924
E. T. Evans	1925—1927
E. C. Peeling (Lay Preacher 1927—1929— and Layworker 1929—1931—	

William Hefin Williams.

"AFYNNO glôd bid farw." Dyna athroniaeth yr hen Gymry gynt, ac nid amheuaf ei wirionedd heddiw. Ni cheisiaf ei wrthbrofi. Ni fedraf. Er dywedyd hynyna na chreded neb fod y tafod a ŵyr ganu cystal wedi tewi yn yr angau. Deil ei lais yn beraidd, ei glust yn fain ac yntau cyn sionced a glaslanc deunaw oed, i'r olwg o leiaf. Gobeithio bod iddo flynyddoedd eto i wasanaethu ei eglwys a moli ei Dduw.

Ni chredaf i mewn canmol dyn wedi ei farw. Dyweder y sydd i'w ddywedyd amdanaf i o leiaf yn fy myw—er fy nghalonogi wrth geisio tynnu cwys drwy'r gwndwn glâs. Ar ganol y grwn y ceir y "cerryg dala" a dyna'r adeg y mae angen gair o galondid ar ddyn. Wedi noswylio ni chlywir mo'r geiriau. Ni bydd y "cerryg dala" yn fy mlino wedyn. Nac aflonydder ar fy hun ychwaith gan ogan y gwŷr a fu'n ddistaw yn ystod fy myw. Dyna 'marn i o leiaf a cheisiaf ddweyd gair am ŵr yn ei fyw ac yntau wedi gwneud eisoes ddiwrnod da o waith ac yn dal i weithio. Ni bu Hefin yn "Unemployed" ym Mrondeifi.

"Ymhob gwlad," medd hen air, "y megir glew." Y mae hyn yn wir am bob ardal i fesur mwy neu lai, ond y mae'n fwy gwir am ambell ardal na'i gilydd. O gerdded drwy hen fynwentydd a gwrando stori carreg fedd daw 'slawer dydd yn ôl a ninnau ynghwmni arwyr y mannau cudd. Ni wn i am wŷr glew Cellan ond gwn pan ysgrifennir rhestr o'i wŷr mawr nad yn iselaf ar y rhestr y bydd Hefin Williams.

Y mae hanes i'r Gymanfa Ganu ond ychydig a'i gŵyr. Cofia nifer y sydd eto'n fyw am y Gymanfa Ganu gyntaf a John Lloyd, Pantywilco yn arwain er y credaf mai y diweddar hen gerddor annwyl Thomas Aeron Davies, "Y Stonecutter" a apwyntiwyd gyntaf.

Y mae'n ddiddorol cofio'r hen gymanfeydd, cymanfa Lloyd Pantywilco, Cymanfa Hughes Rhydyfydyr, Cymanfa Hefin Williams ym Mhantydefaid, Cymanfa Gwilym Evans yn Aberystwyth, Cymanfa Thomas Davies y Felin, Cymanfeydd Eiddil Jones, heb sôn am gymanfeydd nythaid o arweinyddion lleol o ardal Llandysul a'r cyffiniau. Gwnaeth y gwŷr hyn ac eraill ddiwrnod da o waith. Nid wyf yn sicr nad at y teimlad trwy'r canu yr apeliwyd yn Nhy'nyrhewl gyntaf. Swynid y gymydogaeth gan ganu Tyn'yrhewl ac yno yr oedd Daniel Jones, Barley Mow—hen gerddor a hen gyfansoddwr tonau, a thrueni na buasai hen dôn Brondeifi i mewn yn y Perlau Newydd fel y'i cyfansoddwyd ganddo—ynghyd a dau neu dri o geiliogod ifainc megis Evan ei fab, Hathren Davies a Hefin Williams. Hwyrach fod yno ragor ond yn fuan iawn ciliodd Evan ac Hathren a rhoes Daniel Jones ei gyfleu i'r glaslanc, ac y mae wedi bod yn arweinydd y gân am dros hanner can mlynedd.

Dyna Hefin—Blaenor y Gân ym Mrondeifi ac arweinydd Corau Llanbedr am flynyddoedd. Ni wn i am neb ac ystyried popeth y sydd wedi bod yn fwy llwyddiannus nag ef. Gyda llaw ni wn a oes rhywbeth yn awel ardal Brondeifi i fagu cerddor a chyfansoddwr. O droi dail y Perlau, ni cheir ond un enw—W. Hefin

Williams—fel cyfansoddwr tonau gan yr enwad yng Nghymru. Gŵyr llawer un am fedr Daniel Jones y Gwehydd fel cyfansoddwr tôn, Thomas Aeron Davies â chanu yn ei enaid heb law rhai eraill. Beth bynnag arall a fedrir ei ddweyd amdanom rhaid cyfaddef y medrwn ganu.

Ganwyd William Hefin Williams ar yr 21 o Fehefin 1857 a hwyrach mai hynyna a roes iddo yr enw Hefin. Agorodd ei lygaid ar y byd yng Nglanffrwd Cellan. Y mae Glanffrwd wedi malurio ers llawer dydd. Ni chredaf fod clawdd na darn o fur na charreg i nodi'r fan. Ni ŵyr y dô ifanc am "Glanffrwd" ond ryw ddydd hwyrach fe chwilir am dano. Troer i glôs Brooklands neu Faesgwilym fel y'i gelwid gynt, ac yno rywle y safai "Glanffrwd." Yn ddifeddwl y trown drwy hen adfeilion gan gerdded yn anystyriol drwy hen ardd wedi'i gadael heb gofio fod *rhywun* enwog wedi'i eni yno. Nid oedd raid i Glanffrwd gywilyddio a mynd i bwll cyn gynted. Fe gofir amdano tra ganer "Dolydd Eang" a "Llwyn" a llawer i hen dôn annwyl arall.

Ni wn i nemor o hanes bore'i fyd. Edward a Sarah oedd enwau ei rieni. Fe gofir am Edward Williams fel gwr annibynnol o feddwl a mynych y soniai y diweddar Lewis Jones am Edward Williams fel gwr annibynnol o feddwl ymhell o flaen ei oes. Gellid tybio ei fod yn cerdded llwybr y Rationalist ym myd crefydd. Yn fore gadawodd y teulu bach "*Glanffrwd*" gan symud i fyw i Lanbedr. Yr oedd y teulu yn aelodau yng Nghaeronnen a hwyrach iddynt hwy fel teulu Daniel Jones o Nantego gadw y cysylltiad a Chaeronnen er mynd i Dynrhewl ar hwyr Sul.

Fel yr heneiddiai'r bachgen fe'i prentisiwyd yn grydd gyda "Jaci Bacer." Bum i fy hun dro yn chwilio hen siop grydd Jaci Bacer cyn deall fy mod yn ei phasio bron bob dydd ger iet heol y Vicarage—bron ar gyfer Police Station, Llanbedr. Bu Siop "Jaci Bacer" a'i nifer mawr o gryddion yn enwog yn ei dydd, ond y mae'r Siop yn gydwastad a'r llawr ers llawer blwyddyn, a dim ond enw "Jaci Bacer" yn aros a'r "cryddion" a fu yno gynt.

Yma o leiaf y dysgodd Hefin Williams ei grefft cyn iddo ddechreu gweithio ar ei ben ei hun ers blynyddoedd lawer bellach. Y mae'n hawdd dweyd ble y dysgodd ei grefft fel crydd ond nid yw mor hawdd dweyd ble y dysgodd gân a chynghanedd. Hwyrach ei fod yn medru'r gân o'r crud fel y medr yr hwyad nofio. Ni bu mewn ysgol na choleg er dysgu rheolau cynghanedd a threfnu cordiau miwsig. Y mae'r reddf i drin y cordiau ynddo.

Dywed y Sais, "Necessity is the mother of invention." O'r hyn leiaf dyna hanes Hefin. Flynyddoedd mwy yn ôl nag y mae'r

mwyafrif ohonom yn fodlon gyfaddef yr oedd y "Crysties Minstrels" wedi gafael yn y wlad ymhob ardal bron. Yr oedd "group" yn Llanbedr—yn duo'u hunain—ac yn canu. Fe geid llyfrau o "Songs and Choruses" ac wrth geisio cynghaneddir choruses hyn y dechreuodd gerdded ym myd cyfansoddi.

Yn fore iawn dechreuodd arwain a disgyblu côr gan gerdded yn drwm i faes yr Eisteddfod. Ni bu neb ond odid yn fwy llwyddiannus nag ef, a chipiodd yn ystod ei ddydd ymhell dros gant o wobrau. Nid arwain yn unig wnai ond ef hefyd oedd *trainer* y côr.

Pwy a gofia slawer dydd am gôr Hefin yn mynd a Deg Punt o wobr yn Eisteddfod y Cribin? Yr oedd arian i'w cael slawer dydd. Yn Eisteddfod Aberaeron cipiodd y brif wobr o £20 am gor cymysg a £15 am gôr bechgyn. Yn 1895 yr oedd Eisteddfod yn Llangybi a chynhygid £20 a medal arian am ganu "We never will bow down." Ni phlygodd Hefin y diwrnod hwnnw. Yn Ogofau y cipiodd £20 am ganu "Worthy is the Lamb." Yn 1906 cynhelid Eisteddfod Fawreddog yn Llanon a chynhygid gwobr o £30 a medal aur am ganu "Bendigedig ydyw Arglwydd Dduw Israel." Y mae'r medal aur ar fron Mr. Hefin Williams bob dydd yn dweyd am fuddugoliaeth slawer dydd. Yn 1908 aeth a chôr merched i Eisteddfod y Pier Pavilion, Aberystwyth, ac enillodd y wobr o £10 a "silver mounted baton."

Fe gofia rai ohonom Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth a Hefin a'i gôr merched yno'n canu a buasai wedi cipio'r ail wobr onibai damwain.

Nid yw hynyna ond dangoseg o'i ddiwydrwydd. "Dywed ei gynhaeaf—Gweithiwr fu."

Nid oes angen sôn am ei donau yn y Perlau Moliant. Gŵyr pob cerddor o Undodwr am ei donau, megis "Dolydd Eang," "Memorial," "Maesgwyn," "St. Dewi" "Channing," "Marles" a "Llwyn" (tôn a chystal canu arni a'r un yn Aberaeron pwy ddydd) ag enwi dim ond rhai o'i donau.

Ni fedraf i bwyso na mesur ei fedr fel cyfansoddwr ond o glywed cynulleidfa yn canu "Dolydd Eang" neu "Llwyn" neu "Sant Dewi" esgyn fy nghalon at Dduw a diolchaf iddo ef am yr awdur, a phan gerddaf o Gellan i Lanfair trof fy ngolwg i gyfeiriad Maesgwilym a gwelaf yno fwthyn y Glanffrwd a rhywun yn hogyn bach yn chware yno. Medr y dysgedig farnu a chamfarnu ond dwed calonnau cynulleidfa addolgar, "Ni wyddoch chwi: ' 'Tis we

musicians know '." Credaf y bydd canu ar rai o'r tonau hyn tra fo Undodiaid yn y Smotyn Du.

Nid arosaf gydag ef fel Arweinydd Côr er mor llwyddiannus fu, fel cyfansoddwr tonau er aros o gordiau "Dolydd Eang" a "Memorial" a "Llwyn" i'm goglais nac fel Arweinydd Cymanfa, ond oedaf gyda Blaenor y Gân ym Mrondeifi, gyda'r gwr selog a ffyddlon yn ei gapel, Sul a gwyl, ar hindda a drycin a chyda'r athraw mwyn a thawel yn yr Ysgol Sul. Nid yw ei le byth yn wâg oni bydd afiechyd ar yr aelwyd fel y sydd ers llawer dydd bellach yn lluddio Mrs. Williams rhag troi i mewn, a hithau mor selog ag yntau. Ynghanol stormydd a thywydd garw, ac fe'u ceir yn rhy aml ymhob cynulleidfa, nid yw ef byth yn gwgu na "chadw draw." Bu'n ffyddlon a selog ar hyd ei oes. Y mae sêl yn ei waed rywsut. Beth bynnag fydd yn y Capel y mae Hefin yno ac yn fodlon rhoi "help llaw." Y mae ganddo air caredig a gwên i bawb. Nid hir y bydd eyn siarad am Frondeifi a 'slawer dydd. Anfynych y bydd ei le'n wâg yn yr Ysgol Sul. Nid yw ef byth yn rhy hên i fynd yno. Ni chred mai lle i blant mohoni. Y mae'n ei charu a charu'r gwaith.

Crefftwr diwyd ydyw wedi gweithio'n ddiwyd heb anghofio ei gapel na'r Ysgol Sul. Chwythir corn llawer un na wnaeth y degwm a wnaeth ef. Ni ddisgwyl ond gair o gymeradwyaeth. Y mae'r pleser a'r wobr yn y gwaith.

Pan dawo y tafod per bydd "bwlch mawr" yn y gwasanaeth a'r Ysgol Sul ym Mrondeifi ond ni chredaf y disgwyl ef yr adeg honno i ni ganu yn y Modd Lah. Ni bu yn hoff o'r lleddf erioed. Yn hytrach canwn ei dôn ef ei hun "*Memorial*" er côf amdano ef ei hun—

"Pan gofiwn am y tadau fu,
Pan gofiwn am y ceidwad cu ;—
Ei gur, ei groes, a'i nerthol ffydd,
Try cysgod angau'n olau ddydd.

Rho inni'n goron ar bob braint
Hen gariad y boreol saint—
Nes dwyn pobun heb boen na braw
Yn ôl ei fyw i'r gwynfyd draw."

Cerfia Amser enwau llawer cerddor ar restr y gwŷr a wasanaethodd eu cyd-ddynion, a phan bydd Undodiaid yr Ysmotyn Du yn rhestru eu cerddorion nid anghofir yr adeg honno wasanaeth tawel a didwyll

WILLIAM HEFIN WILLIAMS.

EDMYGYDD.

Cymanfa Aberaeron.

NID oes i ni Undodiaid, fel yr oedd i'r Iddew gynt, un ddinas eithriadol gysegredig inni dalu ymweliad achlysurol â hi, nac un deml arbennig fel y deml ar fynydd Sion y rhaid inni fynd iddi cyn y medrwn addoli yn briodol. Yr ydym wedi dysgu un o wersi Iesu (un, o leiaf) yn weddol drwyadl, sef, nad mater o le neu o dŷ neu o ddim materol arall, yw addoli. Credwn y gellir addoli yn y capel bach ei faint, llwyd a di-addurn ei olwg yn allanol a mewnol, lawn cystal ag yn y deml orwychaf—gwell yn aml. Yn wir, cred ambell i Undodwr, medd ef, y gellir addoli yr un mor effeithiol wrth rodianna hyd y meysydd ag wrth ganu mawl a gweddio a gwrando pregethau (sych ddigon lawer o honynt, *ebr ef eto*). A chwarae teg iddynt, gweithredant yn ôl eu cred—belled ag y mae rhodio hyd y meysydd yn mynd, nad beth am addoli. Tybiant y gwnant yn dda iawn fel addolwyr yn ystyr arferol y gair os ânt i ambell gwrdd chwarter neu flynyddol neu gymanfa o rywfath. Nid dywedyd hyn mewn ffordd o feirniadu a wnaf ; dim ond cofnodi a wn y sydd ffaith. Nid oes gennyf hawl i feirniadu mewn mater o'r fath hyn ; oblegid medd popdyn ryddid i drefnu'i fyd fel y barno'n oreu.

Perthyn i Undodiaid Ceredigion, fodd bynnag, un nodwedd a ddwg gryn debygrwydd i un o nodweddau arbennig yr Iddew. Dywedir gan a ŵyr yr ai pob Iddew o oedran aeddfed, os yn iach ac os y caniatâi amgylchiadau, i Ierusalem (Caersalem yn ôl y dull diweddaf o enwi'r ddinas ; pam, ni wn ; oblegid nid gair Cymraeg mo hwn i gyd ; os cymreigio'r enw, cymreigier ef yn gyfan) i ŵyl y Pasg bob blwyddyn yn ddifwlch. Dim ond rhwystr anorfod a fedrai'u lluddias rhag mynd. Yn yr un modd, gwna pob Undodwr (yng Ngheredigion, o leiaf), o bydd popeth yn ffafriol, ymgais i fynd i'r Gymanfa Ganu. Dyna ŵyl fawr Undodiaid Ceredigion yr edrychir ymlaen ati'n aiddgar am fisoedd cyn dyfod o'r dydd, ac y trysorir atgofion melys am dani am fisoedd wedi iddi fynd heibio.

Nid cithriad a fu'r Gymanfa eleni—yn Aberaeron. Gyda chryn fesur o bryder y buom yn edrych ymlaen ati ; oblegid glaw, glaw, glaw, a fu'r stori o ddydd i ddydd am wythnosau. Pa fath ar ddiwrnod a fydd—glawog ynteu tesog ? oedd y gofyniad cyffredinol ; a gobeithiem y ceid ateb ffafriol iddo. Ac ni'n siomwyd. Wedi Sul anarferol o wlyb, agorodd bore Llun yn braf ; a chododd pawb, hyd yn oed y mwyaf hwyrfrydig o honom, nid gyda'r ehedydd yn hollol, eithr gryn dipyn boreuach nag arfer, heb orfod o neb

alw a galw arnom. Fel y cyflymem, gwnnni llawen fel yr oeddym, yn ein cerbyd tua'n cyrchle, braidd na thybiwn weld o honof, trwy gymorth dychymyg, y tyrfaoedd o bob cwr o'r darn Undodaidd, ynghyd a llawer craill o bell ffordd tu allan i ffiniau'r darn, o Gellionnen ac Aberdâr a Llandebie a lleoedd craill, â'u hwynebau tua'r un cyrchle. A phan ddaethom i olwg y dref a'r môr y tu ôl iddi, braidd na thybiwn ddatgan o honynt eu croeso cynnes inni, gan mor siriol eu trem—er y brithid y mor, mae'n wir, gan aml i don frigwyn. Gyda llaw, daw i'm cof yn fyw iawn adeg ysgrifennu'r llinellau hyn y modd yr euthum i Aberaeron y tro cyntaf rhyw drigain mlynedd yn ôl—mewn "cambo" a lusgid gan ddau geffyl; a cymerodd inni ryw deirawr i fynd o'm cartref. Yn sicr, "yr hen bethau a aethant heibio."

Adeg dechreu oedfa'r bore, yr oedd y capel (eiddo'r Methodistiaid fel arfer) yn gysurus o lawn—yn enwedig yr oriel. Onid dymunol yr olygfa?—seddau'r oriel yn llawn a byw o blant o bob oedran a rhyw, wedi'u gwisgo â dillad o bob lliw a llun, o wynebau rhosynnaidd, siriol, angylaidd. Iechyd i'n calon ni o oedran aeddfetach oedd troi o honom ein golwg tuag atynt. Teimlem gryn dipyn yn ifancach o wneuthur hynny. Fedr neb deimlo'n hen ym mhresenoldeb y plentyn. Nid syndod, wedi'r cyfan, i'r Iesu ddal y plentyn i fyny fel patrwm o a ddylai popdyn fod. Carwr dihafal o'r plentyn oedd Ef.

Dyma'r pedwerydd tro i'r gymanfa fod yn Aberaeron—pedwerydd, o leiaf, yn ôl un o'r siaradwyr. Capel cang, wedi'i drefnu'n gyfleus odiaeth, yw'r Capel. "Ydyw'n llawn ar y Sul?" meddwn wrth un o'i fynychwyr. "O'r annwyl, nag ydyw—ddim chwarter llawn," oedd yr ateb. "Pam y darfu i'r Methodistiaid adeiladu capel mor eang mewn tref fechan fel Aberaeron?" oedd ofyniad a roddwyd gan rywun i'r diweddar Mr. James o Landysul. "O," ebr yntau, "yr oeddynt yn adeiladu mewn ffydd—credent y deuai pobl Aberaeron i gyd yn Fethodistiaid bob yn dipyn." Pe'n fyw heddiw, gallai Mr. James roddi ateb arall—i'r capel gael ei adeiladu cyn eanged er i'r Undodiaid gael lle cyfleus i gynnal eu Cymanfa ynddo. Pwy a ŵyr lai nad oedd rhyw fwriad o'r fath hyn yn yr arfaeth. Gwerthfawrogwn yn fawr iawn yr ysbryd rhyddfrydig a amlygwyd gan gynulleidfa'r Tabernacl pan ddarfu iddynt (yn unfrydol, fel y deallaf) gydsynio i roddi eu capel at ein gwasanaeth. Darfu i un o'r siaradwyr (llywydd yr hwyr, os cywir fy nghof) briodoli'r clod hyn i'r diweddar Mr. J. M. Howell. Diameu y perthyn mesur mawr iawn o'r clod iddo ef; eithr nid iddo ef, yn sicr, y perthyn y clod i gyd; perthyn cyfran fawr o hono, hefyd, i Eglwys y Tabernacl. Mwy o'r ysbryd rhyddfrydig (Cristnogol, hyd yn oed) hwn ydyw un o anghenion mawr ein dydd ni ymhob cysylltiad o fywyd—

yn enwedig yng nghysylltiadau crefyddol ein dydd ni. Dyna'r unig uniad o'r enwadau y sydd, eto, yn bosibl—nid uno o'r enwadau i gyd yn un enwad neu un Eglwys, eithr dwyn i fod ysbryd cyn ryddfrydiced a alluoga Gristionogion o bob enw i ysgwyd llaw brawdgarwch a'i gilydd, a dymuno'n dda i'w gilydd. Dyna'r ddelfryd—yr unig ddelfryd ymarferol; ac er nad yw wedi'i sylweddoli eto i'r mesur y dymunem, cyrchu tuag ati a wneir—yn raddol ond sicr.

Beth am weithrediadau'r dydd? Gan nad wyf gerddor, ymochel rhag sangu o honof ar unmath ar dir gwaharddedig sydd oreu imi, megis, traethu barn ar y canu, a'r tonau, a'r anthemau, ac yn y blaen. Dywedir y rhuthra ffyliaid i dir yr ofna angylion sangu arno. Nid wyf nac angel na ffwl—o leiaf, yn ôl fy marn i; eithr perchen ydwyf ar ryw fesur o synnwyr cyffredin—digon, mi obeithiaf, i'm cadw rhag syrthio o honof i'r amryfusedd o gythruddo neb, hyd yn oed pe meddwn duedd i wneuthur hynny. Canmol, ac nid cythruddo, sydd oreu.

Beth am anerchiadau'r llywyddion? Y bore—byr, cynhwysfawr, tlws, a swynol, patrwm o a ddylai araeth llywydd cymanfa fod; y prynhawn—rhagorol; o wrando arni, braidd na thybiwn deimlo o honof naws awyr iach y Trichrug yn rhedeg trwyddi fel ffrwd lifeiriol; nid ar y bryn a ennwyd y mae trigle'r llywydd, yn hytrach i lawr yn y dyffryn odditano; eithr o ba le arall y daw awel iach, adfywiol, dyffryn Aeron os nad o gyfeiriad y Tri Chrug; yr hwyr—cryn dipyn o siom a berwyd i'r gynulleidfa anferth oblegid methu o weinidog y lle â bod yn bresennol; awyddus oeddym i weld pa fath ddyn ydoedd—byr ynteu tal, hen ynteu ifanc; hefyd, beth a ddywedai wrthym; eithr er methu o hono ef â chyflawni'i addewid, gofalodd ddanfon cynrychiolydd ardderchog ym mherson Mr. J. R. Evans, un o'i ddiaconiaid; a chaed ganddo araeth fyw, wresog, a'i llond o ddymuniadau da.

Nid rhoddi hanes manwl o weithrediadau'r dydd yw fy amcan i; gwnaed arall hynny o orchwyl; y cwbl a geisiaf fi wneuthur ydyw rhoddi ar bapur rai o'r argraffiadau a wnaed arnaf yn ystod y dydd. Trefniad canmoladwy ydyw penodi plant i adrodd yr Emynau yng nghwrdd y bore; aethant trwy eu gwaith yn ardderchog iawn—bob un o honynt. Y *descant*: dyma'r tro cyntaf imi glywed y dull hwn o ganu—oddieithr ar y diwifr. Gwefreiddiol oedd yr effaith—yn gymaint felly, fel y bum agosed i'r moliannu a nodweddai'r hen ddiwygiadau Cymreig ag y gellid disgwyl oddiwrth gynulleidfa o Undodiaid, pobl bwyllog, na ellir yn hawdd eu cyffroi, fel ag ydynt. Ddaw'r dull hwn o ganu mawl, tybed, yn boblogaidd yn ein eglwysi? Anodd gwybod; eithr ni pherai imi un syndod pe deuai, "Popeth newydd, dedwydd da."

Yr arweinydd yn ei hwyliau goreu ; hawdd deall y'i bodlonid gan y canu a phopeth arall : a mwy na bodlonid y cerddorion gan ei arweinyddiaeth fedrus yntau. Y mae amryw bethau eraill ar fy meddwl : eithr gwelaf fy mod eisoes wedi croesi dros ffiniau fy ngofod.

Lle delfrydol i gynnal Cymanfa ydyw Aberaeron—oddieithr ar ddiwrnod gwlyb. Cyfeiriais eisoes at y manteision ynglyn â'r Capel. Mantais arall ydoedd—y caem gyfle i yfed o awelon iachusol, adfywiol y môr. Ac ar derfyn y dydd, dychwelyd tua thref a wnaethom gyda'r oll o'r dyn—y corff a'r enaid—wedi'i atgyfnerthu ar gyfer ail ymaflyd yng nghorchwylion arferol bywyd, a chymryd rhan o'r newydd ym mrwydr fawr bywyd. A phe cawn i gyfle i godi llaw yn y mater o ddewis lleoliad y Gymanfa y flwyddyn nesaf a'r blynyddoedd ar ôl hynny, yn ffafr Aberaeron y gwnawn.

D.E.

"*Oedfa'r Hwyr.*"

OD oes fis a fedr fy nghymell i'r maes, Mai yw hwnnw. Ac efallai, am fod ynof rywfaint o serch a hoffter at ddail a blodau, cân a heulwen, y mae galw Mai i mi fel galw'r môr i forwr ! Dywedir, mai "dethol yw'r gân yn y bore." Os felly, gwyn eu byd a fedr fyned i'r coedlannau i glywed yr adar yn croesawu'r wawr.

Hwyrach y dywed y darllennydd : "ni ŵyr e' ddim am ganu," eitha gwir ! Ond credaf, er hynny, nad ydyw hynyna yn ddigon i brofi nad oes ynof i ac eraill o gyffelyb anian galon a chlust i fiwsig ! Gŵyr fy nghalon, o leiaf, ble i fyned pan fo gwyrdd y maes—o drum i draeth fel gwyrdd y môr !

A haul Mai yn rhuddo cant y gorwel pell, euthum wrthyf fy hun o ddadwrdd a chyffro'r heol fawr, i glywed siant y côr cyn bod llenni'r nos yn toi y cwm unig. Yn yr unigedd, yr oedd hên dŷ, heb na ffenestr i dderbyn yr heulwen na dôr i groesawu crwydryn ! Y cwrt a'r ardd a fu'n lân ac yn falchder calon yr hên fobol a breswyliai yno gynt, bellach, yn gartre i'r danadl a'r borfa lâs. Er cwympo o'r hên dŷ a'i ddeiliaid olaf ers blynyddoedd, eto, nid oedd Mai wedi anghofio'r fangre ! Do, euthum yno i glywed yr adar, i weled yr afallen yn ei blodau, a'r lili wen yn gwenu lle gynt bu'r border bach.

Tybiwn fod adar y cread wedi crynhoi at ei gilydd, bod pob aderyn yn ei le, a bod llwyni'r hên ardd wedi eu troi gyda therfyn

dydd yn oriel cân! Gofynnwn i mi fy hun. A ydyw'r adar fel ninnau yn cadw Cymanfa? Os ydynt, dyma ddydd eu cymanfa hwy, a dyma finnau wedi troi i mewn i "oedfa'r hwyr."

Ac meddai Gwilym Deudraeth:

"Tro i fewn cyn terfyna
'Oedfa'r hwyr,'—edifarha."

Ie, edifarhau ohonof am beidio a throi i mewn i "oedfa'r bore," a dilyn arni trwy gydol y dydd! Ond camp yw dilyn arni o fore tan hwyr.

Wedi cymeryd fy sedd dan gangau'r afallen, yn wir, tybiwn i mi glywed aderyn du ar y brig uchaf yn canu,—

"Gwell hwyr na hwyrach."

Ond beth am y miloedd sydd yn cerdded llwybrau'r wlad heb roddi clust i adar a chân, oedfa a chôr? Tybed, ai wedi hên ymgynefino a miwsig soniarus y coedlannau y maent? Doi cwestiwn ar ôl cwestiwn —ond ba ddiben fy holi a neb yn ateb?

Fel gwrandawr, carwn gael gwybod a oedd "oedfa'r bore" yn rhagori ar eiddo'r nawn a'r hwyr. Ai'r tô "ifanc" oedd wrthi gyda thoriad gwawr, a hên gewri'r gân yng nghorff y dydd!

Rhyfedd y dylanwad sydd gan fiwsig tyner a soniarus, y mae yn treiddio i grai'r galon er na ŵyr aderyn ei fod yn gyrru'r nodau adref. Rywsut, y mae canu pathetig yn "oedfa'r hwyr" yn cyrraedd y galon yn gynt, ac y mae pawb, ond odid, wedi gweled deigryn gloyw fel gwlith y bore yn gwlychu gran ambell un pan fo mynd ar emyn a thôn!

Y mae'r aderyn, yntau, yn gallu canu ei neges, er na allaf i ddeall na dehongli ei iaith na'i gân. "Dim ond calon lân all ganu." Calon lân aderyn amdani, ynteu.

Er diffodd ers tro o ruddiau olaf yr haul, eto yr oedd y nos fel pe yn ofni mentro i'r cwm! Ond yn sydyn, dyna sgrech oerllyd dyllhuan yn dyfod o hên allt ym mhen isaf y cwm nes ei rwygo a'i oeri i gyd. I mi, nid oedd y sgrech honno ond rhyw fath ar wŷs bod y nos ar ei ffordd i'r cwm unig.

Wedi marw o'r sŵn yn y pellter draw, dyma'r côr yn taro ac yn dringo ei nodau olaf i gyfeiriad y lleuad a'r sêr.

Er myned o Fai a'i haul a'i hud, erys yn fy nghalon eco'r gân ac atgo o "oedfa'r hwyr."

Prengwyn. IFAN JONES.

Arholiad yr Ysgol Sul 1931.

PRINNAC'H, ffwyddyn ar ôl blwyddyn, yr â nifer yr ymgeiswyr yn Arholiad Ysgrifenedig yr Ysgol Sul. Eleni nid oes ond saith ar hugain o ymgeiswyr yn y tair safon—un yn Safon IV., pump yn Safon III. ac un ar hugain yn Safon II. Daw yr oll o'r ymgeiswyr o chwech o ysgolion sef y Graig, Llandysul; Pantydefaid; Llwynrhydowen; Cwmsychbant; Alltyblaca a Chapel-y-bryn.

Diddorol fyddai gwybod beth sydd i gyfrif am y diffyg diddordeb yma. Hwyrach nad yw ond rhywbeth dros amser, ac yr ail gynheuir eto, yn y plant ac yn yr athrawon frwdfrydedd at y gwaith. Efallai mai doeth fyddai gofyn barn y gweinidogion a'r athrawon ar y mater a cheisio cael allan a fyddai rhyw gyfnewidiad yn natur y maes llafur neu yn nhrefn yr arholiad yn debyg o ddwyn gwelliant

Ymdrinia y maes llafur eleni â digwyddiadau a groniclir yn y pedair pennod gyntaf yn y bedwaredd efengyl. Nid oes amheuaeth ynglyn a diddordeb y bedwaredd efengyl ond ar ol ceisio llunio gofyniadau ar y maes yma ac ystyried yr atebion a gynhygid iddynt, teimlir mai maes braidd yn annodd i blant ydyw hwn. Hawdd ymdrin, mewn gofyn ac ateb, a'r *ffeithiau* neu'r hyn a ddywedir eu bod yn ffeithiau, ond mae'r hyn sydd yn gorwedd o dan y ffeithiau, yn efengyl Ioan, yn broblem mor gymhleth fel ag i fod tu hwnt i ddirnadaeth y mwyafrif o blant. Yn y gofyniadau a roddwyd felly i Safon II. a III. ni ofynnwyd ond am wybodaeth o gynnwys y penodau dewisedig ynghyd a rhyw ychydig o wybodaeth o ffeithiau yn dal perthynas agos â'r hyn groniclir. Dylai pob athro fod wedi gosod y ffeithiau perthynol yma ym meddiant y plant.

Ar y cyfan mae y plant wedi gwneud eu gwaith yn dda. Mae yna rai papurau gwir ragorol. Dengys yr oll o'r ymgeiswyr eu bod wedi gwneud rhyw gymaint o ymdrech i feistroli cynnwys y penodau ofynnid iddynt astudio

Un ymgeisydd oedd yn Safon IV. sef May Davies, Ysgol y Graig. Mae wedi ateb yr oll o'r gofynion yn llawn, mewn iaith ganmoladwy ac ysgrifen ddestlus. Mân yw'r brychau, ac mae'r ymgeisydd yn llawn deilyngu bathodyn y Gymdeithas.

SAFON III. Mae pump ymgeisydd yma, tri o honynt wedi gwneud gwaith da iawn, sef Mary Davies, o Ysgol y Graig; Sarah Anne Davies, Pantydefaid a David Jacob Davies, Pantydefaid. Pump gofyniad o'r chwech atebodd Nancy Davies a gesyd hyn hi ychydig yn is yn y rhestr na'r ddau ymgeisydd arall. Annodd oedd penderfynu rhwng Sarah Anne Evans a David Jacob Davies, ond drwy ddal sylw ar fân bethau deuwyd i'r casgliad mai David

Jacob Davies yw'r goreu, a'r eiddo ef yw'r bathodyn ond llongyfarchwn y ddau ar bapurau manwl a chywir, ac atebion i'r pwynt.

Safon II. Cawn yma un ar hugain o ymgeiswyr a thipyn mwy o amrywiaeth medr a gwybodaeth. O'r un ar hugain mae pedwar wedi ateb mewn modd gwir anrhydeddus, sef Nancy Mary Evans ac Eunice Evans o Alltyblaca, Sally Lloyd o Cwmsychbant a Tegwen Davies o Gapel-y-Bryn. Mae Eunice Evans a Tegwen Davies am wahanol resymau yn syrthio rhyw ychydig yn fyr o safon y ddwy arall. Mae gwaith Sally Lloyd a Nancy Mary Evans yn wir glod iddynt ac i'w hathrawon. Mae yr atebion yn gywir, yn fanwl ac yn fedrus. Llithrodd Sally Lloyd wrth geisio ateb y gofyniad ynglyn a'r defnydd wnaed o'r ychain a'r colomennod werthid yn y deml, ac o herwydd hyn ac am nad yw wedi bod yn llawn mor ofalus ag y medrai fod ynglyn a rhyw un neu ddwy o ffeithiau mae y bathodyn y tro hwn yn myned i Nancy Mary Evans, ac ni fu neb yr wyf yn sicr yn fwy teilwng. Iawn yw canmol plentyn am bob ymdrech deg, ond annodd dweud yn rhy dda am waith y *pedair* geneth hyn. (Yn ôl yr oedran dyma'r gwaith goreu yn yr arholiad i gyd). Ni fedrir rhoddi bathodyn i'r pedair ond gobeithir y bydd y tair sydd heb fathodyn y tro yma yn falch ar eu lle yn nosbarth yr anrhydedd, ac o wybod eu bod yn llawn deilyngu eu lle yno. Ni fedrir manylu ar waith y dau ar bymtheg arall. Mae yna ymdrechion da iawn, ac ymdrechion teg ac ymdrechion "cyffredin."

Diddorol yw yr amrywiaeth "ystyron" roddwyd i eiriau fel "proffwyd": "gwyrth" ac hyd yn oed "disgyblion" ac "efengyl" a deniadol dros ben yw deffiniad un ferch fechan i'r term "Samariaid"—"Pobl yn meddwl mai hwy oedd yn wastad yn y cyffwr iawn." Eang yw terfynau Samaria!

Dymunaf ddiolch yn gynnes i'r oll o'r ymgeiswyr am eu gwaith ac i'r gymdeithas am dasg ddiddorol a phleserus.

T. L. Jones (*Arholydd*).

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1931.

SAFON I. Dan 10 Oed.

Alltyplaca.—Evan Lloyd Davies; Mally Lilian Evans; Mena Williams.

Brondeifi.—Mary Margaret Davies; Nanna Williams; Nancy Lee Williams; Sarah Evelian Davies; Joan Mary Jones; Nansi Rachel Jones; Gweneth Davies; Norah Evans.

Ciliau.—Mary Catheline Davies; Dewi Teifi Jones; David Daniel Evans; Tom Idwal Evans; Timothy Haydn Evans.

Capel-y-Bryn.—Daff Price Davies; Bevan Jenkins; James Ronald David Davies; Benjamin Evan Jones; William Lloyd Jones; Timothy Dennis Davies; John Iscoed Jenkins; Jennie Jones; Marie Thelma Evans; Betty Clarice Davies; Hannah Beryl Jones; Timothy Denzil Jones; Jonathan Cecil Davies; James Eric Evans.

CWMSYCHBANT.—John Lloyd ; Margaret Elizabeth Richards.

CAPEL-Y-GROES.—Alun Bowen Davies ; Aeron Jenkins ; Stanley Thomas ; Sally Richards.

CAPEL-Y-FADFA.—Myra Evans.

CAPEL Y GRAIG.—Dilys Jones ; Daniel Jones ; Cerdin Davies.

CAERONNEN.—Mary Myfanwy Jones ; Joyce Jones ; Letitia Jones.

LLWYNRHYDOWEN.—William Richard Davies ; William John Williams ; Edward Benjamin Jones ; Annie Mary Jones ; Margaret Gertrude Hailes.

PANTYDEFAID.—Jenkin Evans ; Mary Hannah Davies ; Sarah Cerdina Davies ; Nancy Lloyd Davies ; Harriet Edith Heap ; Daniel Jones ; Jack Jones ; Tyssul Lewis ; Vernon Lewis ; Tommy Lewis ; Margaret Thomas ; Bessie Thomas.

RHYDYGWIN.—Mary Aerona Davies ; Bessie Lloyd ; Mary Davies; Joshua Davies ; T. Jonathan Davies ; Evan David Davies ; Thomas Davies ; Ernest Davies.

SAFON II. (AR LAFAR).

CAPEL-Y-GROES.—David Idwal Jones ; Mary Anne Jenkins ; Gwen Thomas ; Hannah Violet Richards ; Ray Rees.

CAPEL-Y-FADFA.—Megan Brown ; Margaret Elizabeth Thomas ; Gwyneth Evans.

CAPEL Y GRAIG.—Gwilym Ivor Thomas.

LLWYNRHYDOWEN.—Tommy Dudley ; Evan Enoch Jones.

PANTYDEFAID.—Rachel Mary Thomas ; Mary Hannah Evans ; Catherine Jones ; Sally Evans ; Margaret Ellen Lewis ; Margaret Jane Evans ; Benjamin Rees Evans ; John James Heap ; Hannah Margaret Thomas ; Mary Ellen Jones.

SAFON II. (YSGRIFENEDIG).

DOSBARTH I. (ANRHYDEDD).—Nancy Mary Evans, Alltyplaca (*Bathodyn*); Sally Lloyd, Cwmsychbant ; Tegwen Davies, Capel y-Bryn ; Eunice Evans, Alltyplaca.

DOSBARTH I.—Jennie Davies, Llwynrhydowen ; Evan Tom Davies, Llwynrhydowen ; Margaret Jane Evans, Cwmsychbant ; Albert Hefin Price, Alltyplaca ; Margaret Anne Evans, Llwynrhydowen ; David Tom Evans, Alltyplaca ; Nana Glenys Davies, Capel-y-Bryn.

DOSBARTH II.—Donald Williams, Alltyplaca ; Megan Davies, Capel-y-Bryn ; Mary Jones, Capel-y-Bryn ; Joan Jones, Llwynrhydowen ; Elsie Hailes, Llwynrhydowen ; Sarah Irma Davies, Capel y-Bryn ; Blodwen Leonard Pughe, Capel-y-Bryn ; David T. Jones, Capel-y-Bryn ; Daniel Henry Davies, Capel-y-Bryn ; Emma Leonard Pughe, Capel-y-Bryn.

SAFON III.

DOSBARTH I. (ANRHYDEDD).—David Jacob Davies, Pantydefaid (*Bathodyn*) ; Sarah Anne Evans, Pantydefaid.

DOSBARTH I.—Nancy Mary Davies, Graig.

DOSBARTH II. Maggie Jones, Pantydefaid ; Cyril Rees Price, Alltyplaca.

SAFON IV.

DOSBARTH I. (ANRHYDEDD).—May Davies, Graig (*Bathodyn*).

TEIMLWN yn ddiolchgar iawn i Arolygwyr yr Arholiad am eu gwasanaeth, ac i Athrawon yr Ysgolion Sul am eu llafur gyda'r plant, ac i'r oll o'r plant hefyd am eu ffyddlondeb.

S. EVANS BOWEN (*Ysgrifennydd*).

Priodasau.

Yn Eglwys St. Ioan, Clydach, Sul, Mai 24ain, gan y Ficer, priodwyd Mr. Theophilus Williams, Bowen's Terrace, Trebanos a Miss Elizabeth Mayberry Francis, Heol Gellionnen, Clydach.

Fore Mercher, Mehefin 10, ym Mrondeifi, o flaen y Cofrestrydd, gan y Parchn. J. A. Cararra Davies, Belper a T. O. Williams, M.A., gweinidog y lle, unwyd mewn glân briodas Mr. Tom Lloyd, Jeweller, Clettwr House, Llanbedr a Miss Pollie Davies, Cararra House, Llanbedr—ill dau yn aelodau ym Mrondeifi. Gwened y Nef ar eu llwybr.

Fore Sul, Mehefin 28, o flaen y Cofrestrydd, gan y Parch. T. O. Williams, M.A., unwyd mewn glân briodas, Mr. Aubrey Thomas, Cambrian Road, Llanbedr, Cyn-Faer y dref a Miss Margaret Anne Jones, 19, Harford Square, Llanbedr. Boed eu llwybr yn yr heulwen.

Marwgofion.

Mai 22, yn 68 mlwydd oed, bu farw Mrs. Evans, annwyl briod Tom Nathaniel Evans, Boonville, Bridge Street, Llanbedr. Yr oedd wedi dihoeni ers blynyddoedd ac wedi ei chaethiwo i'w gwely ers amser hir. Ni chredaf iddi fwynhau iechyd da ers blynyddoedd lawer iawn ond dioddefodd y cyfan yn amyneddgar ac mewn ysbryd Cristionogol. Bu'n selog yn Soar tra gallodd ond daeth nychdod corff i'w chadw gartref. Doi o hen deulu selog ac y mae ei brawd yn fyw, a newydd roddi i fyny ofalu am Eglwys Annibynnol Myddfai. Claddwyd hi Mai 26, ym mynwent Soar, a gadawodd briod, un ferch, brawd mewn oedran teg, heblaw perthynasau eraill i wylo eu colled, er eu bod hwy fel ninnau yn sicr o fod yn diolch i Dduw ar waethaf eu hiraeth am ei gollwng adref o'i phoen a'i nychdod. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. T. O. Williams a T. Eirug Davies; yn y Capel gan y gweinidog, ac ar lan y bedd gan y Parchn. D. H. Thomas (W), a D. Jones, Noddfa.

Dydd Gwener, Mai 22, yn 37 mlwydd oed, John Evan Davies, Council Road, Trebanos. Gyda chalon brudd y gorfodir ni i gofnodi marwolaeth dra sydyn ein hannwyl frawd ieuanc,—a honno yn farwolaeth ddamweiniol. Y nos Iau cyn hynny, ac yntau, fel llawer eraill, yn prysuro adref at ei deulu, a phan groesodd yr heol fawr, a'r traffig, hefyd, yn brysurach bron nac erioed o'r blaen, aeth i wrthdarawiad ag olwyn-fodur, a doluriwyd ef yn dost, —yn dostach nag y meddyliodd y meddyg ei hun, gyda'r canlyniad iddo ymado a'r fuchedd hon, fel y nodwyd uchod. Mae yna agwedd brudd arall eto; gedy efe ar ei ol i alaru a gofidio, wraig annwyl a phump o blant bach. Gwyddom fod y gymydogaeth mewn llawn cydymdeimlad a'r teulu lluosog, yn y cyfwng caled. Hyderwn y bydd i'r llaw ragluniaethol ddangos ei hun gydag arddeliad mewn modd arbennig, ac y bydd i'r weddw a'r rhai bychain gael y nodded gofynnol i gadw corff ac enaid wrth eu gilydd. Bydded i Dduw pob gras, ac Arglwydd pob haelionusrwydd fod yn agos iawn atynt bob amser. Cymerodd ei angladd le y Mawrthgwyn; a chladdwyd yng nghladdfa gyhoeddus Coed Gwilym, Trebanos. Gwasanaethwyd yn y tŷ annedd, ac ar lan y bedd gan y Parch. D. G. Rees, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. W. J. Rees, Alltwen a Daniel Johns, Trebanos.

Dydd Llun, Mehefin 22ain, bu farw Mrs. M. Davies, 34, Margaret Street, Trecynon, yn 85 oed. Hi oedd yr aelod henaf o'r Hen Dŷ Cwrdd ar hyn o bryd, ac ni fu neb yn fwy ffyddlon i'r hen achos tra yn ei gallu i fynychu'r gwasanaeth. Methodd a dod i'r gwasanaeth y blynyddoedd diwethaf hyn oherwydd gwendid a llesgedd ond yr oedd ei diddordeb yn fyw ac awchus am gael gwybod sut yr oedd pethau yn mynd ymlaen. Plaen a dirodres oedd Mrs. Davies, yn naturiol syml ac yn ddidwyll hollol; un o hen gymeriadau'r ardal. Nid oedd gweniaith nac eiddigedd yn perthyn iddi ac yr oedd gan y cymdogion barch mawr tuag ati. Methodd a dod i gyfarfod dadorchuddio maen coffa y Parch. R. J. Jones, M.A., er ei bod wedi trefnu gael ei weled pan fyddai'r hwyl yn weddol, ond ni chafodd ei dymuniad yn hyn o beth. Dydd Sadwrn y 13eg cafodd ei tharo yn wael iawn, ac er iddi adfywio ychydig am ryw ddau ddiwrnod, hawdd oedd canfod fod y diwedd yn agos. Bu farw bore dydd Llun, Mehefin 22ain, a chladdwyd yn y fynwent gyhoeddus dydd Iau, Mehefin 25ain. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

Nodion yr Eglwysi.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Aelodau o Ysgolion Sul Pantydefaid a'r Graig, Llandysul enillodd y Bathodau Arian yn yr Arholiad blynyddol. Dyna fel y bu llynedd hefyd.

CYFARFODYDD BLYNYDDOL.—Cynhelir Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas yn Llwynrhydowen, Mercher ac Iau, Awst 19 a 20. Ceir y manylion yn y Rhifyn nesaf.

TRYSORFA'R MYFYRWYR.—Tua mis yn ôl gyrrodd rhywun a eilw ei hun yn "Hen Gyfeilles" £1 i mi at y Drysorfa hon. Carwn drwy gyfrwng Yr Ymofynnydd ddiolch yn fawr iddi am ei rhodd.

LLANBEDR.— Llongyfarchiadau i Miss Rosa Jones, Drefach House, Drover's Road, Llanbedr ar basio ohoni Arholiad mewn canu y berdoneg—*gydag anrhydedd*—clod nid bychan iddi. Dringed eto'n uwch.

CAERONNEN.—Digwyddodd i ni adael allan enwau Misses Nansi a Joan Jones, Drefach House, o hanes y Gymanfa, a hwythau wedi adrodd Salm yno.

ABERYSTWYTH.—Y Prifathro J. Park Davies, M.A., B.D., o Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, fu yma yn pregethu ar benblwydd y gynulleidfa eleni. Efe hefyd oedd y cadeirydd yn y cyfarfod a ddilynodd wasanaeth y bore. Cafwyd yr adroddiadau arferol am y flwyddyn gan yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd. Talwyd diolchiadau cynnes i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac ail etholwyd hwynt oll. Estynnwn wahoddiad cynnes i bawb o ddarllenwyr Yr Ymofynnydd a ddigwydd fod yn Aberystwyth ar y Sul i gyd-addoli â ni ynghapel bach Heol Newydd.

PANTYDEFAID.—Dydd Gwener, Ebrill 10, anrhegwyd deiliaid Ysgol Sul Pantydefaid â gwledd o dê a phob math o ddanteithion gan Mr. Thomas Lloyd, Pyllaubryn, ynghyd a'i fab a'i ferch yng nghyfraith, Mr. a Mrs. E. T. Lloyd. Daeth cynhulliad lluosog ynghyd o blant, hen ac ieuanc, a gwnaeth pawb gyfiawnder wrth y byrddau. Yn yr hwyr caed cyfarfod adloniadol a Mr. Thomas Lloyd yn y gadair. Plant yn unig fu'n cymryd rhan yn hwn. Yr oedd y canu, adrodd ac actio o safon uchel. Rhoed y diolchiadau arferol, yn arbennig i deulu Pyllaubryn am eu caredigrwydd mawr. Disgwyliwn am wledd gyffelyb eto.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Yn yr Ysgoldy a'r Capel cynhaliodd Urdd y Benywod ei thê a'i nodachfa, nawn dydd Iau, Mai 21ain. Bu aelodau'r Urdd ac eraill yn dra diwyd yn ystod rhyw naw mis yn paratoi y nwyddau ar gyfer y dydd; ac yn sicr, daeth llwyddiant y tu

hwnt i'r disgwyliad. Anghenraid arnom fel eglwys yw diolch mewn modd arbennig i'r Urdd am ei gwaith da a chlodforus. Agorwyd y cyfarfyddiad gan Miss Norah Evans, merch Dr. W. O. Evans, Bryncelyn, Pontardawe, ac wyres y diweddar hybarch John Evans, Gelli-onnen, fel yr adnabyddid ef led-led y wlad. Cyflwynwyd i Miss Evans, gan lywyddes yr Urdd, Miss Ann Morgan, Trebanos, flodeuglwm tlws; a chyhoeddwyd y nodachfa yn agored. Teg nodi mai yr Is-lywydd-es yw Mrs. Dan Bowen; trysoryddes, Mrs. S. J. Edwards a Miss Ray Bowen yn ysgrifenyddes. A bu pob un ddiwyted ag y gallai er gwthio'r cerbyd i gopa'r bryn. Ac am yr ŵyl dê, wel, yr oedd popeth o waith cartref. Rhoddwyd yr archeb am y nwyddau rhwng gwahanol aelodau y gynulleidfa. Diolchir yn gynnes iawn i bawb fu yn sefyll wrth y byrddau ac wrth y *stalls* am oriau meithion, nes yr oeddent drannoeth yn rhy flinedig i ddweyd borau da wrth yr heulwen belydrai ar y ffen-estri. Nac anghofier y rhai a weith-iodd yn y cudd,—rhoddi'r *stalls* i fyny; torri bwyd; a gofalu am y pair, a phethau eraill. Onibai am y ffyddloniaid hyn sydd yn wastad yn barod a dirwgnach i lafurio dros yr achos da, ofer fyddai i neb geisio am gwpanaid o dê, na dim arall. Cofiwn am ein ffyddloniaid. Da gennym, hefyd, i'n cyn-weinidog wneud ei ran i roi olew ar yr olwyn. —Eto, ar fynydd Gellionnen, yn y prynhawn, cafodd aelodau'r Ysgol Sul, ac eraill perthynol i'r eglwys, fwynhad arferol y Llungwyn—yr ŵyl dê flynyddol. Buwyd yn ofnus iawn parthed y tywydd. Mae'r tywydd, fel llawer o bethau eraill yn y byd yma, ac ambell i dric yn perthyn iddo. Ond, ar y cyfan, cafodd y bobl a'r plant amser hynod o dda, dan yr amgylchiadau. Rhodd-wyd gofal y bwyd eleni i Miss Morfydd Williams, Trebanos. Sylwyd nad oedd y dyrfa luosoced ac arfer, ond rhaid peidio achwyn,—gallai fod yn llawer gwaeth. Mae'r eglwys yma, eto, am ddiolch yn garedig i bob un am ei help parod gyda'r gwaith. Nac anghofiwn y rhai sydd yn llafurio yn ein plith.

PWYLLGOR GYMANFA GANU. —Cynhelir Pwyllgor y Gymanfa Ganu yng Nghapel-y-Bryn, Cwrtnewydd, prynhawn Sul, Gorffennaf 12, am 5 o'r gloch. Disgwylir dau gynrych-iolydd o bob Capel.—D. Davies, *Ysg.*

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Gweithiol y Gymdeithas, Llun, Mehefin 22, yng Ngalltyplaca, o dan lywydd-iaeth gweinidog y lle. Yr oedd cynrychiolwyr yn bresennol o Lan-dysul, Pantydefaid, Llwynrhydowen, Bwlchyfadfa, Capelycwm, Capely-bryn, Alltyplaca, Ciliau, Rhydygwin a'r gweinidogion canlynol, D. Evans, T. Arthur Thomas, D. Conwil Evans, S. Evans Bowen, E. O. Jenkins a Thrysorydd y Gymdeithas, Mr. W. S. Jones, M.A. Derbyniwyd cofnodion y cwrdd blaenorol. Pasiwyd y pen-derfyniadau canlynol: (1) Fod y Parch. D. Evans i fod ar Bwyllgor Trysorfa'r Myfyrwyr; (2) Ein bod yn syrthio i fewn a chynllun y Bwrdd Presbyteraidd ynglyn a newid ychydig ar raglen addysg Coleg Caerfyrddin ac yn cymeradwyo'r Gymdeithas i wneud "grant" flyn-yddol o £12/10/0 tuag at gario'r cynllun allan. Apeliodd rhai am ragor o ymdrech—o dŷ y gweinidog-ion yn bennaf*—er cadw'u heglwysi'n fyw ac os yn bosibl eu cryfhau. (3) Fod gwasanaeth crefyddol i'w gynnal yng Nghwmwrdu eleni eto, dydd Gwener, Awst 21, ac fod y gwaith o drefnu'r cwrdd i'w adael i weinidog a chynulleidfa Rhydygwin.

E. O. Jenkins.

---

* Clywais bod yna siarad hyawdl ac awgrymiadau bachog yn y cyfarfod a charwn i o leiaf gael ymdrafod pellach ar y mater—mewn pwyll-gor neu yn Yr Ymofynnydd ond pob un dan ei enw ei hun. Y mae ambell glwyf yn troi yn *septic* ac nid oes dim amdani ond *operation*. Yr wyf i yn credu mai goreu po gyntaf y ceir *operation* yma. Fe geir rhagor eto hwyrach.—Gol.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVER-SMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,
Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.